**Cyflwyniad i’r Pennaeth Gwasanaeth newydd Sian Lewis**

Mae’n fraint ac yn anrhydedd cymryd y rôl hon, ac rwyf wedi cyffroi am y siwrnai i ddod. Fy mwriad oedd adeiladu ar y gwaith gwych a wnaed gan fy rhagflaenydd, Wendy Thomas. Diolch i Wendy am ei hymrwymiad i drawsnewid y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i’r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Mae Wendy’n gadael gwaddol cryf o gefnogaeth a hyfforddiant i’r gweithlu, e-ddysgu, adnoddau a’r fideo ‘parti pen-blwydd’ a enillodd gwobrau.

Cefais y pleser o weithio gyda Wendy am sawl blwyddyn mewn ystod o rolau. Cefais swydd Pennaeth Gwasanaeth ar ôl gweithio am ddwy flynedd a hanner yn Llywodraeth Cymru fel Rheolwr Rhaglen ar gyfer y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth. Cyn hyn, fe sefydlais Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Gwent yn 2017, a’i reoli am bum mlynedd. Mae fy nghefndir yn y maes gwaith cymdeithasol, ac fe reolais Anabledd Dysgu Cymuned Blaenau Gwent am 10 mlynedd ar ôl treulio amser yn y tîm fel gweithiwr cymdeithasol a rheolwr diogelu oedolion.

Rwy’n edrych ymlaen at barhau’r gwaith gyda nifer ohonoch rwyf wedi sefydlu perthnasau gyda nhw, a chreu perthnasau newydd i gyflawni ein gweledigaeth. Rydym wedi dod yn bell yng Nghymru, ond mae gymaint i’w wneud. Rwy’n ystyried y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol fel galluogwr cenedlaethol; byddwn yn parhau i gefnogi gweithlu iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a’r gweithlu ehangach, a byddwn yn parhau i gyd-gynhyrchu adnoddau, codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a derbyn niwrowahaniaeth. Mae ein hegwyddorion yn seiliedig ar fodel cymdeithasol anabledd; byddwn yn hyrwyddo niwro-gynhwysiant ar draws cymdeithas, byddwn yn darparu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i gefnogi gwasanaethau, amgylcheddau, gweithleoedd a chymunedau sy’n gadarnhaol o ran niwrowahaniaeth.

Er mwyn cyflawni hyn, mae’n rhaid i ni weithio’n wahanol, mae’n rhaid i ni weithio gyda’n gilydd fel un system gyda nod cyffredin tuag at Gymru lle mae pobl niwrowahanol yn ffynnu. Mae’n rhaid i ni fodelu hynny ar lefel strategol, a bydd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwella GIG i symud y trawsnewid ymlaen.

Byddwn yn parhau i wrando ar bobl niwrowahanol a beth sydd o bwys i chi. Byddwn yn cefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn datblygu grwpiau strategol niwrowahaniaeth. Byddwn yn parhau i lywio gwelliannau yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Byddwn yn archwilio beth y gallwn ei wneud yn ychwanegol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd, a gwasanaethau niwroddatblygol plant. Byddwn yn cymryd mantais o adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar Dasglu ADHD Gwasanaeth Iechyd Lloegr i nodi addysg a chyfleoedd sy’n berthnasol i ni yng Nghymru.

Mae brwdfrydedd yng Nghymru ar gyfer newid, ac rydw i’n edrych ymlaen at bawb yn cydweithio i wella canlyniadau ar gyfer y boblogaeth niwrowahanol.